



CANOLBWYNT CYFLOGAETH

CONWY

EMPLOYMENT HUB

CHWEFROR 2022

RHIFYN 1

CYMORTH HYFFORDDIANT GRYMUSO
SUPPORT TRAINING EMPOWERMENT

Newyddion y Canolbwynt



CROESO

Croeso i rifyn cyntaf Canolbwynt Newyddion, newyddlen chwarterol Canolbwynt Cyflogaeth Conwy.

Canolbwynt Cyflogaeth Conwy yw brand newydd tîm cyflogadwyedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, sy'n adlewyrchu ein datblygiad fel 'siop pob peth' dan arweiniad y gymuned ar gyfer cyflogadwyedd yn y sir.

Ein rôl yw helpu preswylwyr Conwy ddod o hyd i waith ystyrllon drwy Raglenni Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru, ac mae gweithio mewn partneriaeth gyda busnesau a sefydliadau yn elfen hanfodol o'n llwyddiant.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen y rhifyn cyntaf hwn ac y bydd yn rhoi blas i chi o'r hyn rydym yn ei wneud ac yn tynnu sylw at ein cyflawniadau ac yn bwysicach, sut y gallwn helpu busnesau.

Uchafbwyntiau'r Newyddlen

**Effaith Covid ar
Farchnad Lafur
Conwy**

Llwybr at Gyflogaeth

Llenwi'r swyddi gwag

Ar yr awyr

**Cefnogaeth gan
Llywodraeth Cymru**

LLWYDDIANT Y GRONFA ADFYWIO CYMUNEDOL



Libby Duo, Rheolwr Strategol

Dyfarnwyd cais Cronfa Adfywio Cymunedol y DU i ni i ariannu pum prosiect dan Sgiliau a Chyflogadwyedd gyda chyfanswm o £270,000.

O ganlyniad uniongyrchol i'r llwyddiant hwn, byddwn yn ychwanegu at ein rhaglenni cyflogadwyedd â phrosiectau fydd ar gael i bawb sy'n byw yng Nghonwy. Mae hyn yn cynnwys estyniad o'n cwrs effeithiol, Hyder yn Dy Hun, cyrsiau Llwybr ychwanegol, y gallwch ddarllen mwy amdanynt yn yr erthygl nesaf, yn ogystal â chysiau datblygu i deuluoedd sy'n defnyddio gwasanaeth gofal cymdeithasol.

Meddai Libby Duo, Rheolwr Canolbwynt Cyflogaeth Conwy: "Rydym wedi gwirioni bod ein cais wedi bod yn llwyddiannus. Mae'n gydnabyddiaeth o'r gwaith ardderchog rydyn ni a'r Cyngor yn ei wneud yn barod a bydd yn cyfrannu at gyflawni gweledigaeth y Cyngor o fod yn sir flaengar sy'n creu cyfleoedd."

LLENWI'R SWYDDI GWAG

Rydym wedi helpu nifer fawr o gyflogwyr lleol i lenwi swyddi gwag drwy gydweddu cyfranogwyr addas yr ydym yn gweithio â nhw i rolau gwahanol ym mhob math o sectorau.

Un o'r busnesau rydym wedi eu helpu'n ddiweddar yw World Care Environmental Services yn Llandudno.

Lee Jones, y cyfarwyddwr sy'n dweud y stori; "Fel cyflogwr dw i'n treulio llawer o amser yn recriwtio staff newydd ac felly mae trosglwyddo'r gwaith hwnnw o ganfod pobl addas i Ganolbwynt Cyflogaeth Conwy wedi bod yn help garw.

"Yn ddiweddar roedd gen i bedair swydd wag ac roeddwn yn cael trafferth eu llenwi. Llwyddodd y Canolbwynt Cyflogaeth i lenwi'r pedair yn gyflym, felly dw i'n hapus iawn â'r gweithwyr newydd gan eu bod yn ychwanegu at y tîm. Mae pob un yn awyddus i weithio, ac mae gwybod fy mod i'n helpu pobl a all fod yn wynebu rhwystrau penodol i waith yn fonws ychwanegol."

Gallwn hefyd helpu cyflogwyr â lleoliadau profiad gwaith a rolau gwirfoddoli a chan ein bod yn cael ein hariannu gan y Llywodraeth, mae'r gefnogaeth busnes am ddim. Felly os hoffech drafod unrhyw swyddi gwag rydych yn dymuno eu llenwi, cysylltwch â ni.

FFAIR SWYDDI CONWY

Rydym yn y broses o drefnu Ffair Swyddi fawr i bob sector ym mis Mai eleni.

Gan ein bod yn y camau cynllunio cynnar, ni allwn roi mwy o fanylion i chi ar hyn o bryd, ond os oes gennych ddi-ddordeb canfod mwy anfonwch e-bost atom a byddwn yn rhoi'r manylion i chi cyn gynted ag y gallwn.

EFFAITH COVID AR FARCHNAD LAFUR CONWY

Rhyddhaodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru adroddiad ar ddiwedd mis Hydref 2021 oedd yn manylu ar yr effaith y mae Covid wedi'i gael ar y farchnad lafur yng Ngogledd Cymru gyfan, gyda data penodol ar gyfer bob sir.

Er ei bod yn deg dweud bod Conwy wedi gwneud yn well na rhai siroedd yn y rhanbarth, mae effaith Covid, yn ogystal â'r newidiadau ar ôl Brexit a tharfur ar y gadwyn gyflenwi wedi cael effaith ar yr holl fusnesau.

Mae prinder llafur a sgiliau yn parhau'n her sylweddol ar draws y rhanbarth, ac mae pryderon cynyddol nad yw'r galw am sgiliau ar gyfer swyddi gwag yn cyd-fynd â set sgiliau'r rhai sy'n chwilio am swyddi newydd. Mae hyn wedi effeithio ar y rhan fwyaf o sectorau ond yn enwedig ar Letygarwch a Thwristiaeth, Gofal Cymdeithasol, Bwyd a Ffermio, Adeiladu a Logisteg.

Mae swyddi gwag/hysbysebion wedi cynyddu'n ddramatig. Ym mis Medi 2021, roedd hysbysebion swyddi 98% yn uwch na'r lefel cyn y pandemig (Mawrth 2020), gyda mwyafrif y swyddi/hysbysebion mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol a Thwristiaeth a Lletygarwch. Dywedodd 81% o'r cyflogwyr a holwyd eu bod yn wynebu heriau recriwtio a bod hyn ar draws pob sector ac amrywiaeth o swyddi. Mae hyn yn arwain at adroddiadau bod cyflogwyr yn cynnig cyflogau cystadleuol a buddion ychwanegol i ddenu ymgeiswyr.

Mae gostyngiad bychan wedi bod yn y ffigurau o ran hawlio Credyd Cynhwysol, ond cynnydd yn y rhai sy'n Economaidd Anweithgar yn y rhanbarth, ac mae'n amlwg nad yw adfer swyddi wedi cyrraedd y rhai sydd dan yr anfantais fwyaf yn y rhanbarth eto. Conwy a Gwynedd sydd wedi gweld y gostyngiad mwyaf yn y rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yng Ngogledd Cymru, ond mae gan y ddwy sir, ynghyd â Sir Ddinbych y canran uchaf o bobl economaidd anweithgar yn y rhanbarth.

Nid yw'n syndod mai'r rheswm mwyaf cyffredin dros fod yn economaidd anweithgar i ferched yng Nghymru (27.7%) oedd cyfrifoldebau gofalu llawn amser am eu teulu, a dyna ble gallwn fynd ati i helpu busnesau a rhieni gan fod ein Rhaglen PaCE wedi'i chynllunio i gefnogi rhieni gan gynnwys ariannu gofal plant i'w helpu yn ôl i waith.

Estynnodd yr adroddiad allan at fusnesau mewn sectorau amrywiol i ddeall y meysydd oedd yn peri pryder iddynt:

Gweithgynhyrchu

Ymddengys bod yr adferiad yn y sector hwn yn gryf yn enwedig gan fod COVID mae'n debyg wedi gwneud i lawer o bobl newid eu canfyddiadau am beirianeg fel gyrfa a gweithgynhyrchu yn gyffredinol. Mae busnesau'n gweithio gyda cholegau Addysg Bellach i gau'r bwllch presennol mewn sgiliau, a hefyd gydag Ysgolion a Cholegau er mwyn ysbrydoli pobl ifanc am y cyfleoedd gyrfa.

Adeiladu

Mae'r sector amrywiol hwn yn cynnig digonedd o gyfleoedd cyflogaeth ond ei bryder mwyaf yw cadw staff crefftus ac uwchsgilio, ac mae'n cael problemau recriwtio gweithwyr crefftus yn enwedig seiri, towyr, bricwyr, seiri coed a labrwyr.

Ynni a'r Amgylchedd

Dynodwyd y sector ynni carbon isel fel un o'r sectorau mwyaf cadarn o ran effaith COVID, ac mae'r rhagolygon tymor canolig i hir ar gyfer creu swyddi yn dda, yn ogystal â'r canfyddiad ohono fel gyrfa ymhlith pobl ifanc.

Parhad ar y dudalen nesaf ...

Bwyd a Ffermio

Ers i'r diwydiant croeso ailagor, mae'r sector hwn wedi dangos adferiad ond mae heriau difrifol yn parhau yn cynnwys logisteg, cadwyni cyflenwi, allforio nwyddau a phrinder gyrwyr HGV. Mae busnesau'n disgwyl gweld mwy o angen am sgiliau TG a chyfrifiadurol sylfaenol wrth i'r sector ddibynnu mwy ar gyfrifiaduron yn dilyn COVID.

Lechyd a Gofal Cymdeithasol

Er bod pwysigrwydd y sector hwn wedi'i amlygu drwy gydol y pandemig, mae'n wynebu her sylweddol mewn recriwtio a chadw gweithwyr. Ymdrinnir â hyn ag ymgyrchoeddrecriwtio ychwanegol a gwell a gweithgarwch ar y we, ond bydd yn cymryd amser i ddwyn ffrwyth o ran recriwtio a hyfforddi staff i fod yn barod i wneud y swyddi ym maes gofal. Mae iechyd meddwl a lles staff yn y sector hwn hefyd yn bryder ac mae cefnogaeth hirdymor yn cael ei ddatblygu.

Diwydiannau Creadigol a Digidol

O deledu a ffilm i gemau a meddalwedd cyfrifiadurol, i gerddoriaeth a chelfyddydau perfformio, mae swyddi creadigol yn hynod o grefftus ac mae COVID wedi cael effaith amrywiol ar ddiwydiannau yn y sector hwn. Mae'r diwydiant digidol, technoleg a gemau wedi gweld cynnydd mewn masnach gan fod pobl eisiau adloniant o'u cartrefi tra bod cynyrchiadau theatr, cerddoriaeth fyw, gwyliau ac ati wedi dioddef yn ddifrifol. Mae recriwtio i swyddi lleol yn y sector digidol yn dioddef yn enwedig ers i weithio o gartref ddod yn arferol, sy'n golygu fod pobl yn cael swyddi yn Llundain (a'u cyflogau cysylltiedig) wrth fyw ymhellach, ac mae prinder sgiliau, yn enwedig yn y diwydiant teledu a ffilm.

Twristiaeth a Lletygarwch

Mae'r diwydiant hwn yn bwysicach i economi Gogledd Cymru nac i unrhyw ranbarth arall yn y DU, ac yng Nghonwy mae 25% o'r holl swyddi yn uniongyrchol mewn twristiaeth. Roedd y diwydiant hwn yn un o'r rhai a effeithiwyd arno waethaf gan COVID, ac oherwydd heriau recriwtio difrifol o ganlyniad i'r pandemig a Brexit, sydd wedi arwain at gollu gweithlu o Ewrop, mae'n parhau yn un o'r diwydiannau sydd wedi dioddef fwyaf.

Y disgwyliad yw y bydd y diwydiant yn wynebu goblygiadau hirdymor o ganlyniad i'r pandemig a hefyd anawsterau hirdymor â recriwtio. Ers i'r cyfyngiadau cyfnod clo gael eu codi, mae nifer y diswyddiadau wedi gostwng ond mae bylchau'n parhau yn y gweithlu sy'n anodd eu llenwi, yn enwedig mewn swyddi sy'n cael eu hystyried yn rhai "sgiliau isel" megis swyddi gweinyddol, swyddi gweini a chadw tŷ ac mae'r prinder parhaus o gogyddion, sydd wedi bod yn broblem ers sawl blwyddyn yn parhau.

Mae llawer o gyflogwyr yn ymdrin â'r prinder drwy gyflogi gweithwyr ag ychydig neu ddim profiad gyda'r bwriad o hyfforddi ac uwchsgilio staff yn y gwaith, neu recriwtio pobl â'r sgiliau a phrofiad yn hytrach na chymwysterau ffurfiol gan y gellir eu cyflawni wrth weithio.

Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol

Dyma un o'r sectorau a effeithiwyd arno leiaf o ran staff ac mae mwy o gyfleoedd i bobl weithio mewn ardaloedd/gwledydd gwahanol drwy weithio o gartref. Y prif fater i'r sector hwn yw'r gystadleuaeth mae busnesau'n ei gael â dinasoedd mawr fel Manceinion, Lerpwl a Llundain ble mae cyflogau'n uwch, a allai arwain at brinder sgiliau yn yr hirdymor.

Mae'r adroddiad hwn yn galluogi'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol weithio gyda nifer o sefydliadau i fynd i'r afael â'r anghenion a'r gofynion fydd yn helpu Gogledd Cymru wneud defnydd gwell o'r adnoddau sydd ar gael a'r cyfleoedd sy'n ei wynebu. Mae cyflogwyr yn fwy a mwy tebygol o ystyried recriwtio prentis i lenwi'r bylchau swyddi, ac mae hyn yn digwydd fwy byth yng Nghonwy gyda'r cynnydd mwyaf o 176% ar draws y rhanbarth. Os ydych chi'n ystyried prentisiaethau, darllenwch yr erthygl Llenwi'r Swyddi Gwag ble mae mwy o wybodaeth a dolen at Borth Sgiliau Busnes Cymru.

Mae darganfyddiadau'r adroddiad hefyd wedi cadarnhau y bydd y Llwybrau Recriwtio rydym yn eu rhedeg yn chwarae rôl arwyddocaol mewn ymdrin â llawer o'r prinder sgiliau mewn sectorau allweddol - mae mwy o fanylion am hyn yn yr erthygl [Llwybr at Gyflogaeth](#).

CEFNOGAETH GAN LYWODRAETH CYMRU



Oeddech chi'n gwybod bod gan y Porth Sgiliau Busnes ar-lein gan Lywodraeth Cymru gyfoeth o wybodaeth a datrysiadau i fodloni anghenion busnesau unigol?

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n tudalen Cyflogwr ar ein gwefan ar <https://bit.ly/ConwyGyflogwyr> sy'n cynnwys gwybodaeth am gymorth dileu swydd, ystod o raglenni hyfforddi a sgiliau a chynnyrch cyflogaeth i helpu busnesau dyfu a ffynnu.

AR YR AWYR

Mae gan Ganolbwynt Cyflogaeth Conwy slot wythnosol ar sioe Gary Carr ar Sound Radio 103.1 sef Drive Time.

Gallwch glywed Steve Griffiths, un o'n Rheolwyr Ymarfer Cyflogaeth, bob prynhawn dydd Llun pan mae'n rhoi cyngor am waith ac yn rhannu detholiad o'r swyddi sydd ar gael ar hyd a lled y sir, yn ogystal ag ambell i air doeth a defnyddiol i bobl sydd wrthi'n chwilio am waith.

Mae gwesteion yn ymuno â Steve yn aml, gan gynnwys Prifysgol Bangor yn rhoi cyngor i raddedigion sy'n cael trafferth dod o hyd i swyddi addas, Menter Môn yn cynnig cefnogaeth i bobl sydd am sefydlu eu busnesau eu hunain, a gwasanaeth Gofal Cymdeithasol y Cyngor yn sôn am y rhan allweddol y mae gofalywr cymdeithasol yn ei chwarae a'r cyfleoedd sydd ar gael yn y sector.

Mae hwn yn gyfle gwych i fusnesau i siarad am eu diwydiant ac unrhyw swyddi gwag sydd ganddynt ar hyn o bryd, felly os oes gennych ddi-ddordeb mewn ymuno â Steve, cysylltwch â ni.

Yn y cyfamser, gallwch wrando ar ein holl raglenni blaenorol ar ein tudalen Facebook yn

<https://bit.ly/FacebookCCConwy>



BETH AM ALW HEIBIO I GAEL GWYBOD MWY

Os hoffech chi wybod mwy amdanom a sut gallem ni eich helpu chi, ymunwch â ni yn ein sesiynau Galw Heibio wythnosol i Fusnesau.

Fe'u cynhelir bob dydd Iau o 2.00pm-2.30pm ar Microsoft Teams ac nid oes angen apwyntiad.

Cliciwch ar y ddolen hon - <https://bit.ly/HubEmployer>

Canolbwynt Cyflogaeth Conwy

01492 575578, ccc@conwy.gov.uk, www.conwy.gov.uk/canolbwyntcyflogaethconwy

LLWYBR AT GYFLOGAETH

Mae diweithdra tymor byr a thymor hir wedi codi yng Nghonwy ers 2018* ac er mwyn ymdrin â hyn rydym wedi creu partneriaeth â nifer o fusnesau a sefydliadau i gynnal Llwybrau Recriwtio hyfforddiant yn benodol i sectorau, sy'n gweithio ar uwchsgilio ein cyfranogwyr i fodloni anghenion yr economi leol.

Mae'r Llwybrau mewn sectorau twf a blaenoriaeth allweddol ac fe'u cynlluniwyd i alluogi cyfranogwyr gymryd cymwysterau achrededig, dysgu sgiliau cyflogadwyedd a chael budd o leoliadau profiad gwaith sy'n cefnogi recriwtio a chadw staff. Y sectorau allweddol rydym wedi canolbwyntio arnynt yn ddiweddar yw:

Gyrwyr cerbydau nwyddau trwm (HGV)

Daeth y prinder gyrwyr cerbydau nwyddau trwm yn un o brif benawdau'r cyfryngau y llynedd. Gan weithio gyda Road to Logistics, rhaglen hyfforddi genedlaethol sy'n annog talentau newydd i'r diwydiant cludiant a logisteg, mae gennym 14 o gyfranogwyr ar y Llwybr Recriwtio HGV ar hyn o bryd.

Mae'r rhaglen hyfforddi 5 wythnos hon yn galluogi cyfranogwyr i gael cymhwyster Gyrrwr CPC, cymhwyster iechyd a diogelwch yn ogystal â gwneud hyfforddiant cyflogadwyedd ac ymwybyddiaeth o'r sector. Maent i fod i gymhwyso yn gynnar yn 2022 a byddwn yn gweithio gyda Road to Logistics a'n rhwydwaith o fusnesau i ddod o hyd i gyflogaeth iddynt i gyd.

Lletygarwch

Mae twristiaeth a lletygarwch yn ddiwydiant arall sydd wedi bod yn cael trafferth llenwi swyddi gwag ac rydym wedi bod yn gweithio gyda bwyty Hickory's yn Llandrillo-yn-Rhos i gynnal Hyfforddiant Lletygarwch a Chwrs Profiad Gwaith 9 wythnos. Mae gan gadwyn bwytai annibynnol The Southern Style enw da iawn am wasanaeth cwsmeriaid ac maen nhw wedi bod yn rhoi blas i gyfranogwyr o weithio mewn lletygarwch a chael hyfforddiant i roi'r sgiliau iddynt allu dechrau gweithio yn y sector.

Mae hon hefyd wedi bod yn rhaglen lwyddiannus, llwyddodd 33% o'r cyfranogwyr i gael gwaith cyn gorffen y cwrs hyd yn oed, ac rydym yn hyderus y bydd y rhai sy'n weddill yn dod o hyd i'w swydd ddelfrydol hefyd.

Adeiladu

Rydym wedi bod yn gweithio gyda nifer o sefydliadau yn y sector adeiladu i gynnal cyrsiau hyfforddi yn cynnwys Procure Plus, sef cwmni masnachol, dielw sy'n creu partneriaethau gyda sefydliadau i wella cymunedau lleol drwy ddarparu swyddi a hyfforddiant.

Rydym wedi darparu cwrs 2 wythnos sy'n rhoi sgiliau craidd amhrisiadwy i ddarpar adeiladwyr ynghyd â phrofiad gwaith ymarferol ar safle adeiladu i'w galluogi i gael swydd ym maes adeiladu. Bu'r cwrs mor llwyddiannus ym mis Tachwedd, nes rydym wedi trefnu dau arall ar gyfer chwarter cyntaf 2022.

Gofal Cymdeithasol

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol wedi chwarae rôl hanfodol i gefnogi cymunedau yn ystod y pandemig ond mae'r sector yn profi prinder digynsail o weithwyr gofal. Gan weithio gydag adran gofal cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, rydym wedi cynnal tri chwrs hyfforddi 2 ddiwrnod, "Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol" ac rydym yn falch iawn bod 25% o'r cyfranogwyr wedi cael swydd yn syth ar ôl y cwrs.

Wedi diogelu'r cyllid ychwanegol gan Gronfa Adfywio Cymunedol y DU, byddwn yn cynnal cyrsiau Llwybr ychwanegol eleni. Felly yn ogystal ag ail-wneud y cwrs Llwybr Adeiladu gyda Procure Plus, Cwrs Hyfforddi Goruchwyliwr Drws Awdurdod y Diwydiant Diogelwch, Cwrs Gyrru Gwledig HGV a mwy o gyrsiau gofal cymdeithasol a lletygarwch, byddwn yn edrych ar sectorau allweddol eraill yn cynnwys ailgylchu/ail-ddefnyddio, digidol/creadigol, ynni gwyrdd/adnewyddadwy, iechyd, twristiaeth a hamdden.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn gweithio mewn partneriaeth gyda ni i gynnal rhaglen hyfforddi wedi'i theilwra a chael cyfle unigryw i recriwtio o'r gronfa hon o gyfranogwyr medrus, newydd eu hyfforddi, cysylltwch â ni.

* <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed/employmentrate-by-welshlocalarea-year-gender>

EIN LLWYDDIANT

Roedd 2021 yn flwyddyn lwyddiannus arall i'r Canolbwynt Cyflogaeth a'n tair rhaglen:

Cymunedau am Waith

- Rhagori ar ganlyniadau swyddi ar gyfer Oedolion 77% yn chwarter olaf 2021
- Rhagori ar ganlyniadau swyddi ar gyfer Pobl Ifanc 352% yn chwarter olaf 2021

Cymunedau am Waith a Mwy

- Cynnydd o 134% mewn Ymgysylltiad yn 2020-2021
- Rhagori ar ganlyniadau swyddi 140% yn 2021

PaCE

- Rhagori ar ganlyniadau swyddi 46% yn 2021

Ac er ein bod yn falch o'r ystadegau hyn, rydym hefyd yn falch iawn o glywed am y gwahaniaeth rydym yn ei wneud i fywydau'r rhai sy'n cymryd rhan:

"Mae'r cymorth gefais i gennych chi wedi newid fy myd yn gyfan gwbl! Roeddwn i'n ei chael yn anodd byw. Felly mae'n deg i ddweud fod yr holl gymorth a gefais o bosib wedi achub fy mywyd! Roedd yr holl gyrsiau cefais y cyfle i gymryd rhan ynddynt o gymorth mawr."

"Hoffwn ddiolch i Ganolbwynt Cyflogaeth Conwy am beidio â rhoi'r ffidl yn y to pan gawsom ni rwystrau ar y ffordd oherwydd fy nghofnod troseddol ac am gredu ynof fi a gwneud i mi deimlo'n werthfawr. Mae gan fy mywyd rŵan bwrpas go iawn a dw i'n edrych ymlaen at fynd i'r gwaith bob dydd."

Gallwch ddarllen mwy am ein gwaith gyda chyfranogwyr drwy ymweld â'n hastudiaethau achos yn

<https://bit.ly/CCCAsudiaethAchos>.

CYSYLLTWCH Â NI

Mae gennym Swyddog Ymgysylltu Cyflogwyr penodol, Clare Kingscott, sydd wedi gweithio i'r Canolbwynt Cyflogaeth ers tair blynedd.

Mae'n frwdfrydig am weithio gyda busnesau i lenwi eu swyddi gwag a helpu ein cyfranogwyr ddod o hyd i swyddi sy'n iawn iddynt. Gallwch gysylltu â Clare yn uniongyrchol ar 01492 577202 neu dros e-bost ar clare.kingscott2@conwy.gov.uk.


Neu gallwch ffonio ein llinell gymorth ar 01492 575578, ein he-bostio ar CEH@conwy.gov.uk, neu lenwi ein ffurflen ar-lein yn <https://bit.ly/FfurflenCyflogwyrCCC> a byddwn yn cysylltu â chi.



Os hoffech fwy o wybodaeth am y Canolbwynt Cyflogaeth, gallwch lawrlwytho ein Pecyn Gwaith Ymgysylltu yn

<https://bit.ly/ConwyPecynGwaith>.

Daw'r newyddlen hon o restr bostio. Os dymunwch ddad-danysgrifio, [cliciwch yma](#) a theipiwch 'unsubscribe' yn y blwch 'Subject' a byddwn yn dileu eich manylion ar unwaith.



GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â CHYMUNEDAU AR GANOLFAN BYD GWAITH
WORKING IN PARTNERSHIP WITH COMMUNITIES AND JOBCENTRE PLUS

